
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir y Fflint

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 263A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Paul Goodlad o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys

**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau gwella y gwnaethom edrych arnynt a gwellodd ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol 7

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei ddull o werthuso perfformiad, ond mae angen gwneud rhagor o waith i gysoni ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant ac adrodd ar berfformiad 17

Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ymdopi â'r heriau sy'n ei wynebu 19

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 24

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 25

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint 26

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 28

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint 31

Atodiad 5
Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor 33

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac mae hefyd yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) ar gyfer darparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13 (wedi'i ddiweddaru, lle y bo'n bosibl, er mwyn adlewyrchu datblygiadau mwy diweddar), ei gynlluniau gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Nodwyd, yn 2012-13, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau gwella y gwnaethom edrych arnynt a'i fod wedi gwella ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- gwellodd perfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol ychydig a chafwyd peth perfformiad cadarn mewn sawl maes gwasanaeth;
- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran rhoi mentrau ar waith i wella mynediad at wasanaethau;
- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da yn erbyn ei darged pum mlynedd ar gyfer tai fforddiadwy a disgwylir iddo gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020, ond mae perfformiad o ran atal digartrefedd wedi bod yn anghyson;
- mae perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i wella ar draws amrywiaeth o feysydd, yn arbennig y cymorth a roddir i oedolion; mae rhai agweddau ar wasanaethau plant ac oedolion yn perfformio'n gryf;
- mae ysgolion yn Sir y Fflint yn cynnig gwerth da am arian ond mae cyfle i wella effeithlonrwydd o fewn y system addysg; ac
- mae'r Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith ond nid yw wedi gwneud fawr ddim cynnydd mewn rhai meysydd.

3 Nodwyd hefyd fod y Cyngor wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei ddull o werthuso perfformiad, ond mae angen rhagor o waith i gysoni ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant ac adrodd ar berfformiad. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen hwn, ac mae'n cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o werthuso perfformiad, sydd wedi'i ategu gan drefniadau cynllunio gwelliant gwell ond nid yw'r newidiadau wedi'u hymgorffori'n llawn eto; a

- chydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau am gyflwyno adroddiadau ariannol ond mae mwy o le i atgyfnerthu ei reolaethau ariannol mewn sawl maes.

4 Yn olaf, cafwyd, yn ystod 2013-14, bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant, ond mae angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ymdopi â'r heriau a wynebir. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen hwn, ac mae'n cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o gynllunio gwelliant ond mae angen gwneud rhagor er mwyn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun manylach i reoli ei sefyllfa ariannol heriol, ond mae llwyddiant yn dibynnu ar weithredu a monitro'n cynllun hwnnw'n amserol ac yn effeithiol; ac
- mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu trefniadau cynllunio, rheoli a gwerthuso nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol yn flaenorol, ond mae lle i atgyfnerthu rhai o'r gwelliannau a wnaed eisoes.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

## Argymhellion

6 Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw argymhellion na chynigion newydd ar gyfer gwella. Mae Atodiad 5 yn crynhoi statws ein hargymhellion a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio gwelliant wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd a oedd yn cynnwys, eleni, asesiad o gynnydd y Cyngor yn erbyn dau o'i amcanion gwella:

- cyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaethau a gofal i gwsmeriaid drwy ein Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid; a
- bodloni'r angen am dai yn y sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy, o safon, a gwasanaethau tai ym marchnadoedd tai'r sector cymdeithasol, y sector deiliadaeth gymysg a'r sector preifat.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau gwella y gwnaethom edrych arnynt a gwellodd ei berfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol

## Gwellodd perfformiad cyffredinol yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol ychydig a chafwyd peth perfformiad cadarn mewn sawl maes gwasanaeth

11 Adolygwyd perfformiad y Cyngor ar gyfer 2012-13 yn erbyn cyfartaledd Cymru ar gyfer basged o 44 o ddangosyddion cenedlaethol[1]. Yn seiliedig ar y data hyn, mae perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi gwella ychydig a chafwyd perfformiad cadarn mewn sawl maes, ond cafwyd bod perfformiad yn dirywio mewn meysydd eraill. Er enghraifft:

- Roedd perfformiad ar gyfer dwy ran o dair o'r dangosyddion cenedlaethol (28 o 44) uwchlaw cyfartaledd Cymru, sy'n welliant bach o gymharu â 2011-12.
- Roedd perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf ar gyfer 15 o ddangosyddion cenedlaethol, o gymharu ag 11 yn 2011-12.
- Gwellodd perfformiad 2012-13 ar gyfer 19 o ddangosyddion cenedlaethol.
- Dirywiodd perfformiad 2012-13 ar gyfer 14 o ddangosyddion.

12 Nododd Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Berfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol[2], sy'n defnyddio cyfres wahanol o ddangosyddion, nad oedd perfformiad cyffredinol y Cyngor wedi newid fawr ddim yn ystod 2012-13.

13 Defnyddia'r Cyngor amrywiaeth o ddangosyddion cenedlaethol a lleol i fonitro perfformiad yn erbyn ei flaenoriaethau gwella. Dosbarthodd 42 o'r dangosyddion hyn fel Targedau Gwella – meysydd lle roedd y Cyngor yn ceisio gwella ar ei berfformiad blaenorol. Ar gyfer 2012-13, nododd y Cyngor fod perfformiad ar gyfer ychydig dros hanner (51 y cant) o'i dargedau gwella wedi gwella a bod dau ddangosydd arall wedi aros ar lefel y perfformiad gorau posibl. Dirywiodd y perfformiad mewn saith dangosydd (17 y cant) yn sylweddol; dangosodd y gweddill ddirywiad bach mewn perfformiad.

14 Roedd Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 yn cynnwys 10 blaenoriaeth gwella a 66 o flaenoriaethau eilaidd. Nododd fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ychydig dros hanner (56 y cant) o'r blaenoriaethau eilaidd[3] a chynnydd boddhaol yn erbyn y 44 y cant sy'n weddill. Daw hunanasesiad y Cyngor i'r casgliad na wnaeth yr un o'i flaenoriaethau eilaidd gynnydd a oedd yn llai na boddhaol yn ystod 2012-13.

15 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol er mwyn cael barn pobl Cymru ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Yn arolwg 2012-13, roedd 58 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd. Roedd hyn ychydig yn well na chyfartaledd Cymru a gosododd y Cyngor yn y 10fed safle o blith y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru.

1 30 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) a 24 o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau), y mae 10 ohonynt wedi'u dosbarthu'n DSCau ac yn MACau

2 Mae Adroddiad ar Berfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2012-13 yn dwyn ynghyd y data perfformiad diweddaraf sydd ar gael, y gellir eu defnyddio i gefnogi atebolrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chraffu arnynt. Y meysydd gwasanaeth a nodir yn yr adroddiad yw Gofal Cymdeithasol, Addysg, Hamdden a Diwylliant, Tai, yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Diogelwch Cymunedol a Lles. http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/la-service-performance-2012-13/?skip=1&lang=cy

3 Roedd Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 yn seiliedig ar 10 blaenoriaeth gwella a 66 o is-flaenoriaethau.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran rhoi mentrau ar waith i wella mynediad at wasanaethau

16 Nododd y Cyngor ei fod wedi gwneud cynnydd da yn ystod 2012-13 yn erbyn ei flaenoriaeth wella i 'gyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a gofal i gwsmeriaid drwy ein Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid'. Roedd y Cyngor hefyd yn hyderus ynghylch cyflawni'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r flaenoriaeth hon wrth i'r mentrau newydd aeddfedu. Canolbwyntiodd yr is-flaenoriaethau sydd wrth wraidd y flaenoriaeth wella hon ar agor rhwydwaith o siopau un stop, annog cwsmeriaid i ddefnyddio cyfleusterau hunanwasanaeth a gwella gwasanaeth cwsmeriaid drwy sefydlu Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid. Er mwyn sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen, lluniodd y Cyngor gynllun busnes manwl, a esboniodd sut roedd yn bwriadu cyflawni ei uchelgeisiau mewn ffordd gost-effeithiol. Mae'n dal i fod yn rhy gynnar i asesu effaith lawn y mentrau newydd hyn, yn arbennig o ran yr arbedion effeithlonrwydd blynyddol disgwyliedig o £0.3 miliwn. Roedd cynnydd mewn rhai meysydd yn arafach na'r disgwyl i ddechrau ond mae momentwm yn cynyddu. Cyflawnodd y Cyngor rai o dargedau mynediad at wasanaethau 2013-14 sy'n gysylltiedig â'i fentrau newydd, neu rhagorodd arnynt, ymhell cyn diwedd y flwyddyn.

17 Mae cam cyntaf rhaglen Sir y Fflint yn Cysylltu (Pwyntiau Mynediad i Gwsmeriaid) yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen; agorodd canolfan gyntaf Sir y Fflint yn Cysylltu yn Nhreffynnon, yn ystod mis Tachwedd 2012. Agorodd ail ganolfan yn y Fflint ar ddechrau 2014, gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu canolfannau yng Nghei Connah a Bwcle. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd pum canolfan yn gweithredu ledled y Sir erbyn 2016. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Sir y Fflint yn Cysylltu yw gwella gwasanaeth cwsmeriaid drwy ddarparu mynediad symlach a mwy integredig at wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus mewn amgylchedd modern a chroesawgar. Ymddengys fod y dull llety a rennir yn gweithio'n dda; mae'r Cyngor yn rhannu Canolfan Treffynnon â'r Ganolfan Byd Gwaith a Heddlu Gogledd Cymru ac ag amrywiaeth o bartneriaid yn y trydydd sector ar sail ad hoc. Mae'r model partneriaeth hwn ar ffurf siop un stop yn fuddiol i gwsmeriaid ac yn helpu i sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r cyfleusterau. Mae trefniadau tebyg ar waith ar gyfer y ganolfan newydd yn y Fflint ac mae'r Cyngor yn disgwyl ailadrodd y trefniadau hyn wrth i ganolfannau eraill agor.

18 Cyfiawnhad y Cyngor dros fuddsoddi yn y cysyniad o Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu oedd y byddai'n lleihau costau ar yr un pryd â gwella mynediad lleol at wasanaethau i drigolion. Mae'r cysyniad yn hyrwyddo gweithio hyblyg a datganoli staff a gwasanaethau'r Cyngor i leoliadau sy'n gwella'r cymorth sydd ar gael yn lleol i gwsmeriaid. Mae'r Cyngor yn disgwyl arbed costau drwy ddatblygu rolau swydd cyffredinol i staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid, lleihau amseroedd teithio staff (a chost gyfatebol y teithiau hynny) a rhannu cost cynnal y canolfannau ag asiantaethau partner. Rheswm arall dros leoli'r canolfannau yng nghanol trefi yw eu cyfraniad at weithgarwch adfywio. Mae'r Cyngor yn disgwyl i rai o'r cwsmeriaid sy'n ymweld â'r canolfannau fanteisio ar

y cyfle i siopa yn lleol. Bydd hyn yn ategu cynaliadwyedd manwerthwyr lleol ac yn cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal.

19 I ddechrau cafodd Canolfan Treffynnon lai o ymwelwyr na'r disgwyl ond cynyddodd nifer yr ymwelwyr yn raddol ac erbyn hyn mae'n gwneud yn well na'r disgwyl. Yn ystod naw mis cyntaf 2013-14, nododd y Cyngor fod nifer yr ymwelwyr eisoes 50 y cant yn uwch na'r targed blynyddol. Mae hyn yn newyddion da ac yn helpu'r Cyngor i barhau'n optimistaidd y bydd yn cyflawni ei ragamcanion gwreiddiol ar gyfer 2016 neu'n rhagori arnynt. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi sgorau boddhad o 100 y cant gan ymwelwyr â'r ganolfan. Mae hyn hefyd yn newyddion da. Fodd bynnag, mae'n anarferol cael sgôr boddhad mor uchel. Dylai'r Cyngor fodloni ei hun bod canlyniadau'r arolwg o ymwelwyr yn gynrychioliadol a bod yr arolwg yn ystyried y materion sy'n bwysig i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid.

20 Mae prosiect Newid Sianeli'r Cyngor yn ei helpu i fanteisio ar yr arbedion sylweddol sydd ar gael pan fydd cwsmeriaid yn newid i ffyrdd o gysylltu â'r Cyngor sy'n costio llai iddo ddelio â hwy. Er enghraifft, mae gwaith ymchwil y Cyngor yn awgrymu bod cost ymdrin â chwsmeriaid ar-lein yn cyfateb i tua 10 y cant o gost ymdrin â galwadau ffôn cwsmeriaid a thua phump y cant o gost cysywllt wyneb yn wyneb. Nid yw'n hawdd annog cwsmeriaid i newid eu harferion; y gyfrinach yw sicrhau bod yr opsiynau cost is ar gyfer cysylltu â'r Cyngor yn hawdd eu defnyddio ac yn effeithiol. Bydd angen i rai pobl ddefnyddio ffyrdd traddodiadol o gysylltu â'r Cyngor o hyd neu bydd yn well ganddynt eu defnyddio. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn cynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng lleihau ei gostau trafodion a chynnig cymysgedd o sianeli confensiynol ac electronig sy'n diwallu anghenion gwahanol ei ddinasyddion. Er enghraifft, mae'r canolfannau cyswllt hefyd yn darparu cyfleusterau ar-lein i'w defnyddio gan gwsmeriaid ac mae staff yn cynnig cymorth yn ôl yr angen. Mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o bobl i ddefnyddio ei wasanaethau ar-lein ar ôl iddynt weld pa mor hawdd yw'r broses.

21 Dim ond os bydd eu profiad yn un cadarnhaol, didrafferth a diogel y bydd y Cyngor yn llwyddo i annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Ers 2012, mae'r Cyngor wedi caffael system newydd i reoli ei gynnwys ar y we ac wedi lansio gwefan newydd ac 'App' symudol. Yn ystod 2013-14, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar gynyddu nifer y gwasanaethau digidol, a chyhoeddi'r ffaith bod gwasanaethau digidol ar gael, a gwneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â dinasyddion. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013, roedd nifer yr ymwelwyr â gwefan y Cyngor eisoes yn fwy na'r targed blynyddol ar gyfer 2013-14. Mae hyn yn galonogol ond nid yw'n golygu o reidrwydd bod ymagwedd y Cyngor at newid sianeli yn gweithio.

22 Nid yw gwybodaeth am foddhad defnyddwyr – a ddaeth ymwelwyr â'r wefan o hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano – ar gael eto at gyfer 2013-14. Yn ystod 2012-13, daeth tua 75 y cant o ymwelwyr ar-lein o hyd i'r hyn roeddent yn chwilio amdano ar wefan y Cyngor. Targed y Cyngor ar gyfer 2013-14 yw cynyddu lefelau boddhad i 80 y cant ac, yn y pen draw, i 85 y cant erbyn 2016. Er gwaethaf y cynnydd yn lefelau boddhad defnyddwyr sydd wedi'i dargedu, nid ymddengys fod y rhagamcanion hyn yn arbennig o uchelgeisiol. Mae

disgwyliadau defnyddwyr y wefan – yn arbennig ymhlith pobl iau – yn uchel. Er mwyn osgoi cwsmeriaid siomedig, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod ei sgorau o ran boddhad defnyddwyr ar-lein cystal â sgorau gwefannau masnachol poblogaidd. Bydd angen iddo sicrhau hefyd fod trefniadau i gasglu adborth gan ddefnyddwyr yn darparu digon o wybodaeth i nodi a datrys unrhyw wendidau yn y gwasanaeth ar-lein.

23 Mae trydedd elfen y flaenoriaeth wella hon yn canolbwyntio ar wella safon y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid dros y ffôn ac yn cynnwys datblygu a sefydlu Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Er gwaethaf rhywfaint o oedi i ddechrau, lansiodd y Cyngor y Canolfannau Cyswllt Strydoedd a Thai a system rheoli cydberthnasau cwsmeriaid newydd yn ystod 2012-13. I ddechrau gwaethygodd amseroedd ymdrin â galwadau wrth i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith ond maent wedi gwella ers hynny.

24 Y targed effeithlonrwydd cyfunol ar gyfer pob un o'r tair is-flaenoriaeth yw £300,000. Er mwyn sicrhau arbedion ar y lefel hon, bydd angen i'r prosiect Newid Sianeli, prosiect y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid a phrosiect Sir y Fflint yn Cysylltu gyflawni'r lefelau o weithgarwch a ragamcanwyd yn wreiddiol. Er gwaethaf diffyg data sylfaenol mewn rhai meysydd, mae'r gwelliannau mewn perfformiad a sicrhawyd eisoes yn galonogol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen trefniadau cadarn ar gyfer casglu a monitro data er mwyn ei helpu i ddangos effaith y mentrau hyn.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da yn erbyn ei darged pum mlynedd ar gyfer tai fforddiadwy a disgwylir iddo gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020, ond mae perfformiad o ran atal digartrefedd wedi bod yn anghyson

25 Mae rhaglen gwella tai y Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru[4] (SATC) erbyn 2020. Er mai dim ond 24 o gartrefi'r Cyngor (o blith dros 7,400 o gartrefi) yn Sir y Fflint oedd yn cydymffurfio'n llwyr â SATC erbyn diwedd 2012-13, mae perfformiad y Cyngor yn erbyn elfennau unigol o'r rhaglen gwella tai wedi bod yn llawer gwell. Mae llawer mwy o gartrefi yn cydymffurfio'n rhannol â'r safon oherwydd y gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau, gan olygu bod llawer o denantiaid y Cyngor yn cael budd o gartrefi sy'n fwy cyfforddus i fyw ynddynt ac yn rhatach i'w rhedeg. Er enghraifft, erbyn diwedd 2012-13, roedd 40 y cant o geginau, 47 y cant o ystafelloedd ymolchi, 64 y cant o systemau gwresogi a 70 y cant o ffenestri a drysau allanol yn stoc tai'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safon.

26 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi tua £103 miliwn er mwyn cwblhau ei raglen gwella tai erbyn 2020. Mae'r ffigur hwn yn llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol am fod y Cyngor yn gallu diwygio rhai o'i dybiaethau cynharach. Hefyd, arbedodd £8 miliwn drwy ddymchwel mwy na 200 o fflatiau deulawr lle na fyddai'r gwaith gwella yr oedd angen ei wneud wedi bod yn gost-effeithiol. Mae'r safle yn cael ei ailddatblygu gyda chartrefi fforddiadwy newydd mewn

4 Er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n rhaid i dai cymdeithasol fodloni nifer o feini prawf. Er enghraifft, mae'n rhaid i gartrefi fod mewn cyflwr da ac yn ddiogel, mae'n rhaid iddynt gynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes a system wresogi ddigonol ac mae'n rhaid iddynt fod yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda. Mae'n rhaid i bob elfen fodloni'r safon dderbyniol ofynnol er mwyn i dŷ gydymffurfio â SATC.

partneriaeth â chymdeithas dai leol. Mae rhaglen cyfalaf tai y Cyngor ar gyfer 2013-2020 yn ystyried anghenion buddsoddi ei stoc tai a'r arian sydd ar gael ar gyfer gwelliannau gan y Cyfrif Refeniw Tai.

27 Yn ogystal â'r rhestr o welliannau arfaethedig, mae angen i'r Cyngor ddelio ag atgyweiriadau heb eu trefnu i'w stoc tai hefyd. Yn ystod 2012-13, gwellodd y Cyngor ei amseroedd ymateb ar gyfer delio ag atgyweiriadau ar fyrder ac atgyweiriadau nad oeddent ar fyrder yn sylweddol. Er enghraifft, lleihaodd yr amser ymateb ar gyfer delio ag atgyweiriadau nad oeddent ar fyrder i dai'r Cyngor o 63 i 44 diwrnod. Gwelwyd lleihad hefyd yn yr amser yr oedd eiddo'r Cyngor yn wag - o 69 i 47 diwrnod yn 2012-13. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn cael yr incwm mwyaf posibl gan ei denantiaid a bod yr incwm hwnnw yn cefnogi ei ymdrechion ehangach i ostwng cyfraddau digartrefedd. Mae perfformiad wedi parhau i wella; mae'r Cyngor yn disgwyl i'w berfformiad ar gyfer y dangosyddion hyn yn 2013-14 ddangos lefelau tebyg o welliant.

28 Mae blaenoriaeth wella'r Cyngor ar gyfer tai yn ehangach na gwella ansawdd stoc y Cyngor yn unig. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod digon o gartrefi fforddiadwy o ansawdd ar gael a helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd ar fin bod yn ddigartref.

29 Ledled Cymru, mae cynghorau yn derbyn llai o deuluoedd fel rhai digartref. Mae'r sefyllfa yn Sir y Fflint yn adlewyrchu'r duedd hon, er gwaethaf cynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth ers 2012. Yn ystod 2012-13, roedd nifer y teuluoedd y derbyniodd y Cyngor eu bod yn ddigartref ac y rhoddwyd blaenoriaeth i'w hanghenion yn un o'r isaf yng Nghymru. Ar gyfartaledd, roedd llai na 50 o deuluoedd digartref yn y Sir mewn llety dros dro. Fodd bynnag, mae perfformiad y Cyngor o ran cymryd camau i atal digartrefedd wedi parhau i ddirywio. Yn ystod 2012-13, helpodd y Cyngor i atal 83 y cant o deuluoedd a allai fod wedi mynd yn ddigartref rhag bod yn ddigartref, o gymharu ag 86 y cant yn 2011-12 a 95 y cant yn 2010-11. Mae perfformiad y Cyngor ar gyfer y dangosydd hwn wedi gostwng o'r 3ydd safle i'r 14eg safle o blith y 22 o awdurdodau lleol Nghymru ers 2010-11. Mae adroddiadau a baratowyd gan y Cyngor yn ystod 2013-14 yn nodi bod perfformiad wedi gwella'n sylweddol ond nid yw data perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn ar gael eto i gadarnhau hyn.

30 Pennodd y Cyngor darged heriol i'w hun sef, erbyn 2016, na fydd unrhyw un sy'n ddigartref yn cael ei roi mewn llety dros dro am fwy na 12 mis. Cynyddodd yr amser cyfartalog a dreuliwyd gan deuluoedd digartref mewn llety dros dro yn Sir y Fflint o 208 diwrnod yn 2011-12 i 280 diwrnod yn 2012-13. Mae'r Cyngor yn priodoli rhywfaint o'r dirywiad hwn i'r galw cynyddol am gartrefi â llai o ystafelloedd gwely o du tenantiaid tai cymdeithasol presennol sy'n awyddus i osgoi ôl-ddyledion rhent sy'n deillio o doriadau i'w budd-dal tai ('treth

yr ystafell wely' fel y'i gelwir). Mae hyn yn lleihau'r cyflenwad o gartrefi llai o faint y mae galw amdanynt hefyd o du teuluoedd digartref. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd toriadau mewn budd-daliadau tai yn effeithio ar 1,300 o denantiaid yn Sir y Fflint. Mewn ymarfer cysylltiedig, yn ystod mis Ebrill 2014, dechreuodd y Cyngor dreialu'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, sy'n cyfuno chwe budd-dal a chredyd treth i bobl o oedran gwaith i greu un taliad misol. Bydd rhai derbynwyr budd-dal yn Sir y Fflint ymhlith y cyntaf yng Nghymru i drosglwyddo i'r system newydd.

31 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy o safon. Pennodd darged i gwblhau 740 o gartrefi fforddiadwy newydd rhwng 2012 a 2017, gan gynnwys 170 o gartrefi newydd i gymryd lle'r 214 o fflatiau deulawr a ddymchwelwyd. Adeiladwyd 57 o gartrefi fforddiadwy newydd yn y Sir yn ystod 2012-13 o gymharu â 71 yn 2011-12; roedd y nifer hon yn llai nag roedd y Cyngor yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn optimistaidd ynghylch cyflawni ei darged ar gyfer 2013-14, sef 128 o gartrefi fforddiadwy, o gofio bod cynllun tai gofal ychwanegol wedi'i gwblhau'n ddiweddar, ac mae'n hyderus y bydd yn cyflawni ei darged ar gyfer 2012-2017. Yn ogystal â'i ymdrechion ei hun i ddarparu cartrefi fforddiadwy, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â phartneriaid i nodi cyfleoedd i gynyddu'r cyfenwad o dai fforddiadwy yn y dyfodol. Yn arbennig, sefydlodd y Cyngor Gwmni Tai yn ddiweddar er mwyn ei helpu i gyflawni targedau ei strategaeth tai lleol ar gyfer amrywiaeth o ddeiliadaethau.

## Mae perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i wella ar draws amrywiaeth o feysydd, yn arbennig y cymorth a roddir i oedolion; mae rhai agweddau ar wasanaethau plant ac oedolion yn perfformio'n gryf

32 Mae materion sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol yn amlwg iawn yng nghynllun gwella'r Cyngor, sy'n adlewyrchu'r cyfraniad pwysig y mae'r gwasanaethau hyn yn ei wneud at iechyd a lles pobl a theuluoedd. Mae tua hanner blaenoriaethau gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 yn gysylltiedig, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r adran gwasanaethau cymdeithasol. At hynny, mae cysylltiad agos rhwng tua chwarter o flaenoriaethau eilaidd y Cyngor â gwaith ei dimau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi asesu iddo wneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf (12 o 16) o'r blaenoriaethau eilaidd hyn yn ystod 2012-13 – cafodd y gweithgareddau arfaethedig eu cyflawni ar amser neu roeddent yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlen. Er bod rhai o'r gweithgareddau arfaethedig wedi profi peth oedi, nododd y Cyngor nad oedd yr un ohonynt ar ei hôl hi'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.

33 Perfformiodd y Cyngor yn dda yn erbyn y saith dangosydd cenedlaethol a ddefnyddir i fonitro gwasanaethau oedolion. Gwellodd perfformiad ar gyfer pump o'r saith dangosydd yn ystod 2012-13 ac roedd chwech o'r saith yn y chwartel uchaf. Perfformiodd y Cyngor yn well na chyfartaledd Cymru ar gyfer wyth o'r 13 o ddangosyddion a ddefnyddir i fonitro gwasanaethau plant; roedd pump o'r

rhain yn y chwartel uchaf. Fodd bynnag, dirywiodd perfformiad ar gyfer chwech o'r 10 dangosydd (lle roedd modd gwneud cymariaethau â 2011-12).

34 Mae gwerthusiad blynyddol AGGCC o ddarpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol y Cyngor yn disgrifio newidiadau cadarnhaol ar draws gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant yn ystod 2012-13. Daeth gwerthusiad AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn arloesol ac yn edrych i'r dyfodol; mae'n cael budd o arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth glir ac mae wedi parhau i wneud cynnydd mewn nifer o feysydd allweddol. Nododd AGGCC fwriad clir y Cyngor i roi rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau y maent yn eu cael a helpu mwy o bobl i fyw bywydau annibynnol. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio lleihau dibyniaeth ar ei wasanaethau drwy atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau a thrwy ddefnyddio technoleg newydd.

35 Mae'r pwyslais y mae'r Cyngor yn ei roi ar fesurau atal wedi helpu mwy o oedolion i fyw bywyd annibynnol. Mae hyn yn golygu bod angen cymorth gofal preswyl ar lai o oedolion. Mae ei wasanaeth ail-alluogi wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran helpu pobl i adfer eu hannibyniaeth; nid oes angen gwasanaethau eraill ar y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar ôl cael cymorth ail-alluogi. Nododd y Cyngor fod angen atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion ac mae wedi cymryd camau i wella'r ffordd y mae'n rheoli risg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi codi pryderon ynghylch y trefniadau ar gyfer cydweithio â'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn gwella gwasanaethau iechyd cymunedol.

36 Nododd AGGCC fod perfformiad y Cyngor yn 2012-13 yn erbyn amrywiaeth sylweddol o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i atgyfeiriadau sy'n dod i mewn ac yn perfformio'n dda yn erbyn ei gyfrifoldebau am amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, ond mae lle i wella sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r Cyngor wedi datblygu amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac yn rhoi cymorth da i bobl ifanc sy'n gadael gofal ac mae wedi'i gwneud yn haws iddynt gael gafael ar lety. Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ailstrwythuro er mwyn adlewyrchu elfennau allweddol o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hyn yn hyrwyddo gwell craffu cyhoeddus yn erbyn meysydd allweddol arweinyddiaeth, comisiynu, gwella, llais i ddinasyddion, diogelu ac integreiddio gwasanaethau.

37 Mae AGGCC wedi nodi enghreifftiau amrywiol o arfer da, megis datblygu ail gynllun gofal ychwanegol sy'n cynnwys 15 o randai sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer pobl â dementia – y rhai cyntaf yng Nghymru. Nododd hefyd rai risgiau posibl, megis cynaliadwyedd gwaith cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor a'i allu i ddylanwadu ar waith cynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol. Nid ymdriniodd y Cyngor â rhai o'r meysydd allweddol ar gyfer datblygu a nodwyd yn flaenorol gan AGGCC mewn modd cadarn. Cydnabu'r Cyngor hyn a blaenoriaethodd y meysydd hynny lle nad oedd wedi gwneud digon o gynnydd. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn gwella ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion. Er bod

y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, nododd AGGCC fod angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n gyson gadarn.

38 Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd AGGCC adroddiad sy'n canolbwyntio ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i bobl â dementia a'u gofalwyr. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol iawn o drefniadau'r Cyngor. Er enghraifft, nododd AGGCC fod 'strategaeth gomisiynu'r Cyngor ar gyfer lleoliadau hirdymor i bobl hŷn â dementia yn ddogfen gynhwysfawr sy'n ystyried y galw nawr ac yn y dyfodol ac yn cysylltu hyn â gwybodaeth gyllidebol a chyflwr y farchnad. Mae'r dadansoddiad a'r casgliadau y deuir iddynt yn soffistigedig ac yn dangos mân wahaniaethau ac maent yn golygu bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau hirdymor cadarn a rheoli'r farchnad yn hytrach na gweithio mewn ffordd adweithiol. Mae ganddo strategaeth gomisiynu fanwl iawn ar gyfer gofalwyr hefyd.'

39 Hefyd, nododd AGGCC drefniadau gweithio cadarn rhwng adrannau o fewn y Cyngor. Mae tai yn yr un gyfarwyddiaeth gymunedol â gofal cymdeithasol; mae hyn yn creu cysylltiadau da rhwng meysydd polisi a datblygiadau mewn gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno gwelyau 'cam i lawr' o fewn ei gynlluniau tai gwarchod ac nid oes unrhyw restr aros ar gyfer addasiadau i dai.

40 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang â defnyddwyr a gofalwyr ynghylch ei gynlluniau comisiynu ar gyfer gwasanaethau. Mae adborth gan deuluoedd a gofalwyr defnyddwyr gwasanaethau yn canmol eu profiadau o ddelio â'r Cyngor ac effeithiolrwydd ei drefniadau ymgysylltu. Gwnaeth AGGCC dri argymhelliad i wella'r gwasanaeth a ddarperir i bobl â dementia a'u gofalwyr; canolbwyntiodd yr argymhellion ar ddatblygu trefniadau mwy integredig ar gyfer rhoi cymorth rhwng y Cyngor a'i bartneriaid, yn arbennig gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.

## Mae ysgolion yn Sir y Fflint yn cynnig gwerth da am arian ond mae lle i wella effeithlonrwydd o fewn y system addysg

41 Canolbwyntiodd cynlluniau gwella'r Cyngor ar gyfer addysg ar bedwar maes â blaenoriaeth yn ystod 2012-13, sef rhoi newid sefydliadol ar waith o dan y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a rhaglen genedlaethol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif; gwella deilliannau i ddysgwyr mewn ysgolion yn Sir y Fflint; cwblhau adolygiadau o'r fformiwla ariannu ysgolion a'r modd y caiff arian ei ddirprwyo; ac adolygu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i ysgolion a chyhoeddi cytundeb partneriaeth diwygiedig a chrynodeb o Gytundebau Lefel Gwasanaeth.

42 Llwyddodd y Cyngor i gyflawni rhai elfennau pwysig o'i gynlluniau ar gyfer 2012-13 ond nid oedd ei berfformiad cyffredinol yn erbyn yr is-flaenoriaethau a oedd yn ymwneud ag addysg mor gadarnhaol. Er enghraifft, nid oes gan y Cyngor hanes da o ran cynnal a chadw ei adeiladau ysgolion; erbyn diwedd 2012-13, roedd ôl-groniad sylweddol o atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw o hyd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i'w alluogi i fuddsoddi £64 miliwn mewn

ysgolion yn ardaloedd Glannau Dyfrdwy a Threffynnon. Bydd yr arian hwn yn sicrhau bod yr ysgolion yn addas at y diben ac yn helpu i leihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Cyhoeddodd y Cyngor yn ddiweddar fod yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion wedi gostwng o £35 miliwn i £23.6 miliwn ers 2010.

43 Asesodd y Cyngor fod ei gynnydd yn erbyn pob un o'r pedair is-flaenoriaeth yn 2012-13 yn foddhaol, gyda rhywfaint o oedi o ran gweithgarwch a drefnwyd, ond ei fod ar y trywydd iawn ar y cyfan. Roedd y Cyngor yn dal i fod yn hyderus ynghylch cyflawni'r canlyniadau ar gyfer tair o'r pedair is-flaenoriaeth ond roedd yn ansicr ynghylch ei allu i gyflawni newid sefydliadol o dan y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a rhaglen genedlaethol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

44 Gwellodd canlyniadau mewn ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yn sylweddol yn 2013. Yn wahanol i 2012, roedd cyfran y disgyblion 7 ac 11 oed a gyrhaeddodd y safonau disgwyliedig yn fwy na chyfartaledd Cymru. Drwy gymharu perfformiad mewn ysgolion cynradd yn Sir y Fflint â pherfformiad mewn ysgolion mewn ardaloedd â lefelau tebyg o amddifadedd, gwelir bod ysgolion yn Sir y Fflint wedi perfformio ar y lefelau y gellid eu disgwyl ar y cyfan.

45 Mewn ysgolion uwchradd, enillodd 62.2 y cant o ddisgyblion 16 oed bum gradd TGAU dda neu fwy a oedd yn cynnwys pynciau pwysig mathemateg a Chymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg. Y canlyniad hwn oedd yr uchaf o blith pob cyngor yng Nghymru ac roedd bron 10 pwynt canrannol yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae nifer y plant 16 oed sy'n gadael yr ysgol yn Sir y Fflint nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wedi parhau i leihau; yn 2012, lleihaodd y gyfran i 2.3 y cant, yr ail gyfran isaf o blith pob cyngor yng Nghymru.

46 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ysgolion, a hynny mewn modd effeithlon. Ym mis Ionawr 2013, roedd tua 4,000 o leoedd gwag mewn ysgolion yn Sir y Fflint (15.4 y cant o'r cyfanswm) yn cael eu dosbarthu ar draws yr 83 o ysgolion cynradd ac uwchradd. Er ei bod yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 10 y cant, mae'r ganran hon ychydig yn well na chyfartaledd Cymru, sef 17.4 y cant. Mae'r Cyngor yn parhau â'r gwaith o foderneiddio ei ystâd ysgolion.

47 Er gwaethaf y lleoedd gwag, mae'r system ysgolion yn Sir y Fflint yn costio llai i'w chynnal nag yn y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru. Ar gyfer 2013-14, pennodd y Cyngor gyllideb addysg (heb gynnwys grantiau penodol) a oedd yn cyfateb i £4,803 fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd ledled Cymru o £4,992. O ystyried y deilliannau cadarnhaol, ar y cyfan, a nodwyd uchod, mae'r costau isel yn awgrymu bod y gwasanaeth ysgolion yn cynnig gwerth da am arian.

48 O fewn y cyfanswm isel hwn, mae'r Cyngor yn gwario mwy fesul disgybl nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru, ar osod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion y tu allan i Sir y Fflint. Ar gyfer 2013-14, pennodd y Cyngor gyllideb o bron £3.5 miliwn ar gyfer yr eitem hon, sy'n cyfateb i £152 fesul disgybl yn y Sir o gymharu â chyfartaledd ledled Cymru o ddim ond £35 fesul disgybl. Mae'n debygol

iawn y bydd rhai pobl ifanc sy'n byw yn Sir y Fflint y mae eu hanghenion addysgol mor gymhleth fel na ellir eu diwallu gan ysgolion yn y Sir. Fodd bynnag, bu gwariant Sir y Fflint ar leoedd mewn ysgolion y tu allan i'r sir yn uchel ers sawl blwyddyn ac mae'n lleihau ymhellach yr hyn sydd eisoes yn lefel isel o wariant ar ddisgyblion mewn ysgolion yn Sir y Fflint.

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg ond nid yw wedi gwneud fawr ddim cynnydd mewn rhai meysydd

49 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

50 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

51 Nododd y Comisiynydd fod y Cyngor yn cydnabod bod angen sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng ei Gynllun Gwella a'i Gynllun Iaith Gymraeg ac mae wedi datblygu cynllun monitro ffurfiol sydd bellach yn rhan annatod o'i broses cynllunio busnes. Er na nododd y Cyngor faint yn union o'i staff a all siarad Cymraeg yn ystod 2012-13, addawodd y byddai ei weithlu cyfan yn cwblhau hunanasesiad sgiliau iaith erbyn mis Mawrth 2014. Ar ôl hynny dosbarthodd y Cyngor holiadur hunanasesu i bob aelod o staff er nad oedd pob aelod o staff wedi ymateb i'r arolwg erbyn diwedd mis Mawrth.

52 Gwelwyd lleihad sylweddol yn nifer y staff a gafodd hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod 2012-13. Mae'r Cyngor bellach wedi datblygu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg er mwyn cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff mewn ffordd fwy strategol a phenodol. Mae'r Cyngor yn disgwyl lansio'r strategaeth yn ystod 2014-15 yn dilyn cyfnod o ymgynghori â staff. Gan mai prin yw'r cyfleoedd i gynyddu cyfran y staff sy'n siarad Cymraeg drwy recriwtio ar hyn o bryd, bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a chynllunio ar gyfer ei ddarparu yn effeithiol.

# Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i atgyfnerthu ei ddull o werthuso perfformiad, ond mae angen rhagor o waith i gysoni ei drefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant ac adrodd ar berfformiad

## Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o werthuso perfformiad, wedi'i ategu gan drefniadau gwell ar gyfer cynllunio gwelliant ond nid yw'r newidiadau wedi'u hymgorffori'n llawn eto

53 Daeth Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Rhagfyr 2013 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Nododd y Llythyr gyfleoedd i'r Cyngor atgyfnerthu ei drefniadau. Er enghraifft, gwelsom fod cyfle i wella tryloywder casgliadau'r Cyngor ynghylch ei gynnydd a darparu mwy o fanylion am effaith mentrau cydweithredol. Rhwystrwyd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad a'i gynnydd yn ystod 2012-13 gan yr angen i adlewyrchu cynnydd yn erbyn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-2017 – na ddiffiniodd uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer 2012-13 yn glir. Oherwydd hyn roedd yn fwy anodd i'r Cyngor gyflwyno adroddiad ar ei gynnydd blynyddol.

54 Ym mis Chwefror 2013, nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad oedd Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-2017 yn 'cynnwys digon o wybodaeth am berfformiad cyfredol i alluogi cynghorwyr a darllenwyr y Cynllun i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad ar ddiwedd y flwyddyn'. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i werthuso perfformiad yn erbyn ei uchelgeisiau ar gyfer 2012-13 mor glir ag y dylai ei wneud. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwella. Ymatebodd y Cyngor i'n pryderon cynharach drwy drawsnewid arddull a chynnwys ei gynllun gwella dilynol ar gyfer 2013-14. Dylai hyn helpu'r Cyngor i werthuso ei berfformiad blynyddol yn fwy effeithiol, pan fydd yn llunio adroddiad perfformiad blynyddol ym mis Hydref 2014.

55 Nododd ein hadolygiad o ddull y Cyngor o sicrhau ansawdd data yn 2013 ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r gwendidau a oedd yn ymwneud â data a nodwyd yn 2012. Roedd cyfrifiadau'r Cyngor ar gyfer y dangosyddion perfformiad a samplwyd gennym yn 2013 yn gywir ac yn seiliedig ar ddata cywir. Roedd y systemau a adolygwyd gennym yn gwneud cynnydd boddhaol ond nodwyd bod lle i atgyfnerthu trefniadau lleol y Cyngor ar gyfer rhoi arweiniad. Bydd cymryd camau i fynd i'r afael â hyn yn sicrhau y caiff data perfformiad a ddefnyddir i lywio penderfyniadau'r Cyngor eu cofnodi ac y cyflwynir adroddiadau arnynt mewn ffordd gyson.

56 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o werthuso prosiectau. Er enghraifft, mae'r cynlluniau gweithredu ar gyfer prosiectau mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn cynnwys cam gwerthuso ôl-brosiect. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r broses hon ei helpu i ddeall yr hyn a aeth yn dda a ble mae angen gwneud newidiadau, fel y gall prosiectau tebyg gael budd yn y dyfodol. Er bod rhywfaint o wybodaeth am lefelau gweithgarwch ar gael cyn y newidiadau, yn ystod 2013-14 canolbwyntiodd y Cyngor ar gasglu data sylfaenol manwl ar gyfer y prosiectau. Erbyn diwedd 2014-15, mae'r Cyngor yn disgwyl iddo fod mewn sefyllfa gryfach i asesu effaith gychwynnol y mentrau hyn a dangos a fu'r buddsoddiad dan sylw yn werth chweil.

57 Er mwyn llywio ein dadansoddiad o drefniadau gwerthuso'r Cyngor edrychwyd ar ei drefniadau ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nodwyd bod y Cyngor wedi parhau i atgyfnerthu ei ddull gweithredu, ond nad yw ei drefniadau wedi'u hymgorffori'n llawn eto. Er enghraifft, ni phennodd y Cyngor fesurau llwyddiant ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, am nad oedd ganddo unrhyw ddata sylfaenol. Oherwydd hyn mae'n fwy anodd i'r Cyngor werthuso cydymffurfiaeth â'r Cynllun; mae'r Cyngor bellach wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. At hynny, er bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys amcanion pendant, nid oes ganddo gysylltiadau clir â chynlluniau gwasanaeth unigol y Cyngor bob amser. Mae hyn yn cynyddu'r risg y caiff penderfyniadau eu gwneud heb ddealltwriaeth glir o'r goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau i gyflwyno adroddiadau ariannol ond mae mwy o gyfle i atgyfnerthu ei reolaethau ariannol mewn sawl maes

58 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar. Yn seiliedig ar y farn hon, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan, ond bod lle i wella rhai agweddau ar drefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor. Er enghraifft, roedd angen i'r Cyngor wneud mwy i ddeall gweithrediad y gofrestr o asedau sefydlog a gwella ansawdd y datganiadau cyfrifyddu. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i ymdopi â'r heriau sy'n ei wynebu

### Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o gynllunio gwelliant ond mae angen gwneud rhagor er mwyn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru

59 Nododd Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol, dyddiedig Medi 2013, fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 (y Cynllun) yn adlewyrchu dull newydd a gwell y Cyngor o bennu amcanion gwella. Cyn 2012, roedd y Cynllun yn cynnwys sawl dogfen gysylltiedig. Ar gyfer 2013-14, disgrifir yr amcanion gwella blynyddol mewn Cynllun cryno sy'n canolbwyntio ar agweddau unigol ar flaenoriaethau corfforaethol pum mlynedd y Cyngor. Mae'r dull gweithredu hwn wedi helpu i fireinio ffocws y Cyngor ei hun ar yr agenda heriol y mae wedi'i phennu iddo'i hun. Mae hefyd wedi rhoi ymrwymiad cliriach i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion Sir y Fflint, yn ystod 2013-14 ac ar ôl hynny.

60 Mae'r Cyngor wedi gwella diwyg y Cynllun; mae'n llawer byrrach nag o'r blaen ond mae'n cyfleu'n glir ac yn gryno sut mae pob un o'r amcanion gwella yn ymwneud ag wyth blaenoriaeth gorfforaethol tymor canolig y Cyngor a blaenoriaethau corfforaethol tymor canolig partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r defnydd craff o liw, iaith syml, diagramau a ffotograffau oll yn helpu i gyfleu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn golygu bod y fersiwn hwn o'r Cynllun yn ddogfen fwy diddorol a bod y Cynllun yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach o ddarllenwyr.

61 Er gwaethaf y cynnydd hwn, nid yw'r Cynllun yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid yw'r Cynllun yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau clir at unrhyw ymgynghori ar yr amcanion gwella na chanlyniadau unrhyw ymgynghoriadau. Fodd bynnag, mae'r Amcanion Gwella yn adlewyrchu amcanion cynharach yng nghynllun pum mlynedd y Cyngor, y mae nifer ohonynt yn gyson â'r Strategaeth Gymunedol. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag ystod o randdeiliaid ynghylch llawer o'r amcanion hyn yn flaenorol.

62 Pan gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei lythyr asesiad gwella, nid oedd Cynllun y Cyngor yn cynnwys unrhyw wybodaeth am dargedau canlyniadau ar gyfer 2013-14. Oherwydd hyn roedd yn fwy anodd i ddarllenwyr y Cynllun ddeall graddfa uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Hanner ffordd drwy 2013-14, cyhoeddodd y Cyngor Atodiad i'r cynllun sy'n rhoi data sylfaenol, data alldro perfformiad ar gyfer 2012-13 a thargedau ar gyfer 2013-14. Oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi targedau ar ddiwedd y flwyddyn, bu'n fwy anodd i swyddogion fonitro cynnydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.  Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylai pennu targedau fod yn rhan annatod o brosesau cynllunio gwelliant ac mae'n cymryd camau i symleiddio ei drefniadau.

63 Cododd Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Medi 2013 bryderon nad oedd rhai agweddau ar drefniadau gwella'r Cyngor - yn arbennig diffyg eglurder ynghylch y ffordd yr oedd y Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r bwlch ariannu sylweddol - wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Tanseiliodd y pryderon hyn ein hyder yng ngallu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion gwella. Chwe mis

yn ddiweddarach, mae arwyddion clir bod y Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu ei drefniadau gwella, gan gynnwys datblygu cynllun ariannol tymor canolig sy'n egluro sut mae'r Cyngor yn disgwyl mantoli ei gyllideb.

64 Mae bron traean o'r is-flaenoriaethau y penderfynodd y Cyngor ganolbwyntio arnynt yn ystod 2013-14 yn ymwneud â dod 'yn gyngor modern ac effeithlon'. Mae nifer o'r is-flaenoriaethau hyn yn gysylltiedig â phrosiectau mawr a chymhleth, yr oedd rhai ohonynt yn brosiectau hirsefydledig lle roedd cynnydd ar ei hôl hi. Yn y gorffennol, rydym wedi mynegi pryder ynghylch y diffyg cynnydd hwn – pryderon a rannwyd gan y Cyngor.

65 Yn ystod 2013-14, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson yn erbyn nifer o'r is-flaenoriaethau hyn. Er enghraifft, mae mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn gwella, ac mae gwaith i baru adnoddau â blaenoriaethau wedi cyfrannu'n gadarnhaol at gynllun ariannol tymor canolig diweddaraf y Cyngor. Gwnaeth y Cyngor hefyd gynnydd sylweddol tuag at gyflawni ei strategaeth pobl ar gyfer 2009-2014, gan gynnwys amrywiaeth o brosiectau a oedd yn cefnogi agenda'r Cyngor ar gyfer newid sefydliadol. Roedd y strategaeth pobl yn cynnwys camau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol; er enghraifft, mae'r gwaith o roi cytundeb Statws Sengl ar waith bellach ar y trywydd iawn ac yn agosáu at gael ei gwblhau. Yn ystod 2014-15, rydym yn bwriadu adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn rhai o'r is-flaenoriaethau eraill. Rydym wrthi'n adolygu dull y Cyngor o reoli asedau a byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith o roi'r rhaglen newid sefydliadol ar waith, y gellid dadlau mai hi yw'r un fwyaf radical o'i is-flaenoriaethau. Yn ystod hydref 2014, byddwn hefyd yn cwblhau asesiad corfforaethol er mwyn darparu datganiad sefyllfa cynhwysfawr am adnoddau a gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd yr asesiad yn ystyried hanes y Cyngor o ran perfformiad a chanlyniadau yn ogystal â gwerthuso'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

66 Fel cynghorau eraill ledled Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint yn wynebu heriau ariannol sylweddol, nawr ac yn y dyfodol agos. Mae'r Cyngor wedi ymateb drwy ddatblygu rhaglen ailgynllunio a newid sefydliadol fanwl sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu gwasanaethau lleol, yn targedu arbedion effeithlonrwydd ac yn lleihau costau'r gweithlu.

67 Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi'r rhaglen newid sefydliadol ar waith – megis yr angen am fuddsoddiad sylweddol, cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltu â staff – wedi'u rheoli'n effeithiol. Cytunwyd ar y buddsoddiad sydd ei angen, mae cefnogaeth wleidyddol gryf i'r rhaglen ac mae'r broses o ymgysylltu â staff yn mynd rhagddi. Mae'r Cyngor wedi cynllunio ei strwythur uwch reoli newydd er mwyn ymateb i'w amgylchiadau sy'n newid, arbed arian a defnyddio talent ei uwch swyddogion yn fwy effeithiol er mwyn moderneiddio'r sefydliad. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn disgwyl i wasanaethau gael eu gwella a'u trawsnewid yn gyflymach ac y bydd yn fwy abl i ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd allanol.

68 Bydd adnoddau a gallu'r uwch dîm arwain newydd yn hanfodol i'r broses newid. Mae'r newidiadau'n cynnwys creu strwythur uwch reoli symlach – un haen o uwch swyddogion, yn lle'r ddwy haen bresennol o gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaethau. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys dwy rôl gorfforaethol, pum rôl wasanaeth a dwy rôl drawsnewid ynghyd â swydd Prif Weithredwr – lleihad o 18 i 10 o uwch swyddi rheoli. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risgiau yn gysylltiedig â'r model gweithredu newydd ond mae'n hyderus y gall reoli'r risgiau hynny'n effeithiol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ddwy rôl drawsnewid chwarae rhan allweddol o ran mynd i'r afael â'n pryderon cyffredin ynghylch llithriant prosiectau a rhaglenni allweddol. Bydd y ddau Bennaeth Trawsnewid newydd yn darparu adnoddau dynodedig i arwain a chefnogi newidiadau i wasanaethau a newidiadau mewnol.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun manylach i reoli ei sefyllfa ariannol heriol, ond mae llwyddiant yn dibynnu ar weithredu a monitro'n cynllun hwnnw'n amserol ac yn effeithiol

69 Mynegodd Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Medi 2013 amheuon ynghylch gallu'r Cyngor i ddatblygu cynlluniau a oedd yn nodi, yn ddigon manwl, ffynonellau arbedion effeithlonrwydd neu doriadau i wasanaethau sydd eu hangen er mwyn mantoli'r gyllideb ar gyfer 2014-15 ac ar ôl hynny.

70 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi diweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig. Ym mis Hydref 2013, nododd fwlch o £16.5 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2014-15. Lleihaodd y bwlch yn y gyllideb i £15.5 miliwn ar ôl hynny, yn dilyn addasiadau a gyhoeddwyd yn Setliad Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

71 Cymeradwywyd cynigion ar gyfer mantoli'r gyllideb ar gyfer 2014-15 ym mis Chwefror 2014. Mae cynlluniau cyllidebol y Cyngor yn adlewyrchu ei flaenoriaeth gyffredinol i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen cyn belled ag y bo'n ymarferol drwy ganolbwyntio ar leihau costau a gorbenion ymhellach, lleihau costau'r gweithlu yn gyffredinol (gan gynnwys ailstrwythuro uwch reolwyr) ac ailfodelu rhai o swyddogaethau'r Cyngor.  Mae strategaeth gyllidebol y Cyngor yn seiliedig ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd sefydliadol sylweddol yn ystod 2014-15, wedi'i ddilyn gan gyfundrefn ehangach o ddiwygio a blaenoriaethu gwasanaethau o 2015-16 ymlaen.

72 Mae cyllideb refeniw 2014-15 yn cynnwys cost untro o £6.25 miliwn (a ariennir o gronfeydd wrth gefn) i dalu costau buddsoddi a chostau arian trosiannol ymlaen llaw. Mae'r gyllideb hefyd yn tybio y sicrheir arbedion effeithlonrwydd o £12 miliwn yn ystod 2014-15. Mae'r Cyngor yn cydnabod maint yr her hon ac yn deall y bydd rhoi ei raglenni newid sefydliadol mawr ar waith yn effeithiol yn cael dylanwad sylweddol ar y canlyniad. Nododd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cabinet, a oedd yn cefnogi'r cynigion cyllidebol, fod modd cyflawni'r targedau effeithlonrwydd ar yr amod bod y sefydliad yn cwrdd â'r terfynau amser a bennwyd ac yn gweithredu'n bendant ar bob cam. Hefyd, nododd Prif Swyddog Ariannol y Cyngor, yn yr un adroddiad, y byddai rheolaeth ariannol effeithiol a disgybledig yn ystod y flwyddyn yn allweddol i sicrhau y

câi cyllidebau eu rheoli'n effeithiol a chamau eu cymryd yn brydlon er mwyn lleihau'r effeithiau pe bai amrywiadau. Bydd sicrhau yr ymdrinnir â'r ffactorau hollbwysig hyn mewn modd cadarn yn flaenoriaeth uchel i uwch dîm rheoli ailstrwythuredig y Cyngor ac yn brawf cynnar ohono.

73 At hynny, bydd yn hanfodol i'r uwch dîm rheoli newydd droi ei sylw'n gyflym at heriau ariannol 2015-16 a thu hwnt, a fydd yn gofyn am adolygiad mwy sylfaenol o'r modelau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn y gorffennol, gall gymryd amser hir i gyflwyno'r fath newidiadau cymhleth; felly, mae risg na chaiff arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig eu sicrhau mor gyflym ag sydd ei angen.

74 Mae'n anochel y bydd cyflawni rhaglen newid sefydliadol y Cyngor, ynghyd â'r heriau ariannol cynyddol sy'n wynebu pob cyngor, yn rhoi pwysau ar swyddogion ac aelodau. Bydd gallu'r Cyngor i nodi arwyddion cynnar o lithriant ac ymateb yn hyblyg i broblemau neu gyfleoedd yn dylanwadu ar faint ei lwyddiant.

75 Pennodd y Cyngor gyllideb cyfalaf ar gyfer 2014-15 er mwyn cyflawni blaenoriaethau craidd a diwallu anghenion brys. Wrth wneud hynny, cymerodd y Cyngor agwedd ddarbodus tuag at lefel y derbyniadau cyfalaf disgwyliedig er mwyn lleihau'r risg na chaiff incwm ei wireddu a chyflwyno sicrwydd i'r ffrwd ariannu cyfalaf hon ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae gwaith i ddatblygu ei strategaeth gyfalaf, a fydd yn cynnwys ystyriaeth gan yr aelodau ac ymgynghori â'r cyhoedd, yn dal i fynd rhagddo. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen integreiddio'r gwaith hwn yn llawn â phrosesau cynllunio ariannol refeniw.

76 Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd dull gweithredu'r Cyngor, y gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ariannol tymor canolig a'i strategaeth gyfalaf ymhellach a'r modd y mae'n rhoi ei gynlluniau cyllidebol ar gyfer 2014-15 ar waith.

## Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu trefniadau cynllunio, rheoli a gwerthuso nad oeddent wedi'u datblygu'n ddigonol yn flaenorol, ond mae lle i atgyfnerthu rhai o'r gwelliannau a wnaed eisoes

77 Yn ei lythyr dyddiedig mis Medi 2013, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad, ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, ei fod o'r farn bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon, er nad oedd rhai agweddau ar y trefniadau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol. Ers mis Medi 2013 rydym wedi parhau i adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a ddeilliodd o'n gwaith cynharach.

78 Rhestrodd Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Chwefror 2013 wyth argymhelliad a chynnig hirsefydledig ar gyfer gwella, nad oedd y Cyngor wedi ymdrin â hwy yn llawn. Rydym wedi grwpio'r rhain yn bum maes cyffredinol ar gyfer gwella at ddibenion yr adroddiad hwn. Trafodir cynnydd yn erbyn y meysydd hyn isod ac fe'i crynhoir yn Atodiad 5:

- **Gwerthuso**: Ymatebodd y Cyngor i'n pryderon ynghylch cadernid ei drefniadau gwerthuso drwy roi naratif mwy cytbwys yn ei adroddiad perfformiad ar gyfer 2012-13. At hynny, cynyddodd y Cyngor y data o ddata i ategu ei werthusiad o gynnydd ac effaith, ond nid yw ei ddull gweithredu wedi'i ddatblygu'n llawn eto. Bydd angen i'r Cyngor ddangos bod ei drefniadau gwerthuso yr un mor gadarn â'i drefniadau cynllunio gwelliant sydd wedi'u gwella. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored.

- **Rheoli Perfformiad**: Yn ystod 2013, gwellodd y Cyngor y ffordd y mae'n diffinio ei uchelgeisiau blynyddol. Fodd bynnag, mae lle o hyd i'r Cyngor wneud defnydd helaethach o fesurau llwyddiant meintiol yn ogystal â rhai ansoddol a fydd yn helpu cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill i'w ddwyn i gyfrif am ei berfformiad. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored.

- **Ymgysylltu**: Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y cynnig hwn, nid yw ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gadarn eto. Mae gan y Cyngor amrywiaeth eang o systemau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchodedig ond ni ddefnyddir y systemau hyn gan wasanaethau bob amser.  Nodwyd rhai cyfleoedd ymgysylltu a gollwyd. Er enghraifft, yn ystod adolygiad o doiledau cyhoeddus, nid ymgysylltodd y Cyngor â grwpiau mynediad i bobl anabl lleol na'r fforwm 50+ er bod y ddau grŵp wedi codi pryderon ynghylch y mater yn genedlaethol. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored.

- **Cynllunio busnes**: Datblygodd y Cyngor gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad i gwsmeriaid a chytunodd arno. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella bellach wedi'i gau. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor barhau i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwerthuso llwyddiant y fenter hon – yn arbennig faint o arbedion effeithlonrwydd a sicrheir. Dylai'r gwerthusiad ôl-brosiect sydd wedi'i drefnu ar gyfer gwella mynediad cwsmeriaid helpu'r Cyngor i ddeall yr hyn y gallai ei wneud yn wahanol neu'n well a gwella hyder yn ei allu i gyflawni prosiectau buddsoddi i arbed eraill.

- **Cynllunio Ariannol**: Cwblhaodd y Cyngor y gwaith roedd angen ei wneud i nodi'r blwch ariannu a ffyrdd o fantoli'r gyllideb. Mae'r argymhelliad penodol hwn bellach wedi'i gau. Fodd bynnag, fel gyda phob cyngor yng Nghymru, bydd Cyngor Sir y Fflint yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos. Mae'r sicrwydd a roddir gan drefniadau cadarn ar gyfer datblygu a darparu cyllideb fantoledig yn golygu y bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor.

## Mae’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

79 Ar sail y casgliadau a amlinellwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred Archwilydd Cyffredinol Cymru fod Cyngor Sir y Fflint yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint

## The Council

Mae'r Cyngor yn gwario tua £318 miliwn y flwyddyn (cyllideb 2013-14), gan gynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfateb i tua £2,083 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd y Cyngor hefyd yn bwriadu gwario £40.9 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn Sir y Fflint oedd £1,184 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.14 y cant i £1,221 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 68.4 y cant o dai Sir y Fflint yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 70 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 31 o'r Blaid Lafur
- 10 o Gynghrair Annibynnol
- 8 o'r Blaid Geidwadol
- 7 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 7 Aelod Annibynnol Newydd
- 6 Aelod Annibynnol
- Un sedd wag, tra'n aros am isetholiad ym mis Mai 2014

Y Cynghorydd Aaron Shotton yw'r Arweinydd

Prif Weithredwr y Cyngor yw Colin Everett. Fe'i cefnogir gan: i'w gadarnhau, yn dilyn yr ymarfer recriwtio i'r Uwch Dîm Arwain newydd ym mis Ebrill 2014

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir y Fflint yw:

Sandy Mewies, Delyn, y Blaid Lafur
Carl Sargeant, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur
Llyr Huws Gruffydd, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Cymru
Mark Isherwood, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
Aled Roberts, Rhanbarth Gogledd Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Antoinette Sandbach, Rhanbarth Gogledd Cymru, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir y Fflint yw:

David Hanson, Delyn, y Blaid Lafur
Mark Tami, Alun a Glannau Dyfrdwy, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB. Ffôn: 01352 752121

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Aaron Shotton – Arweinydd
Colin Everett – Prif Weithredwr
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NB

Annwyl Gynghorydd Shotton a Colin

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ond mae mwy o le i atgyfnerthu ei reolaethau ariannol mewn sawl maes ac mae'r Cyngor yn wynebu her ariannol sylweddol y mae angen mynd i'r afael â hi

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2013 ac fe'u crynhoir isod:

- Roedd nifer o ddiwygiadau mewn perthynas â chyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog. Roedd y Cyngor wedi trin gwariant cyfalaf nad yw'n ychwanegu gwerth yn anghywir ac roedd angen addasiad o £13.8 miliwn er mwyn ailddatgan gwerthoedd asedau am fod angen lleihau gwerth asedau. At hynny, nid oedd pob ased wedi'i gofnodi yn y gofrestr o asedau a oedd yn golygu bod anghysondebau â'r cyfriflyfr ariannol, a allai arwain at wallau o ran triniaeth gyfrifyddu. Mae angen gwneud rhagor o waith hefyd i ddeall gweithrediad y gofrestr o asedau sefydlog ac ymgorffori arferion gwaith cyson.
- Er gwaethaf rhai gwelliannau, yn arbennig clirio 'eitemau mantoli' yn y cyfrifon, mae mwy o le i wella ansawdd datganiadau cyfrifyddu.
- Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol a oedd yn ar gael iddo, ni chydnabu'r Cyngor yn llawn rwymedigaeth am gyfraniadau pensiwn ar ei rwymedigaethau cyflog cyfartal. Mae hyn y groes i gyngor cyfreithiol a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n awgrymu y dylid gwneud cyfraniadau pensiwn ar y taliadau i fodloni hawliadau cyflog cyfartal. Oherwydd y safbwyntiau cyfreithiol gwahanol ac ansicrwydd ynghylch yr angen i gydnabod darpariaeth, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad na fyddai'n cymryd unrhyw gamau pellach fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2012-2013.
- Ym mis Medi 2013, cwblhawyd y broses o ddiddymu AD Waste. O ran cyfrifyddu roedd hwn yn ddigwyddiad addasu ar ôl dyddiad y fantolen a rhwng paratoi a chwblhau'r cyfrifon drafft. Felly, addasodd y Cyngor y fersiwn terfynol o'r cyfrifon er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ar ôl diddymu'r cwmni. Mae'r holl drafodion cyfrifyddu sy'n ymwneud â throsglwyddo ADW i reolaeth y Cyngor wedi'u cwblhau ac roeddent yn foddhaol.

Nodwyd y mater canlynol mewn perthynas â chyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd:

- Roedd y cyfrifon yn cynnwys camddatganiad nas cywirwyd, er nad oedd yn berthnasol. Cofnodwyd buddsoddiadau yn y cyfrifon yn seiliedig ar adroddiadau gwerthuso a oedd ar gael ar adeg eu paratoi. Cyn cwblhau'r archwiliad, daeth adroddiadau gwerthuso mwy cyfredol ar gael a ddangosodd fod buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2013 wedi'u tanddatgan £0.9 miliwn. Fodd bynnag, am mai mater o amseru oedd hwn, darparodd y Cyngor sylwadau gan reolwyr, a dderbyniwyd gennym, er mwyn esbonio'r rheswm dros beidio â'i ddiwygio.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Diweddarodd y Cyngor ei gynllun ariannol tymor canolig ym mis Hydref 2013. Nododd y cynllun ddiffyg o £16.5 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2014-15 a £47.8 miliwn dros y pum mlynedd i ddod. Ers hynny, cyhoeddwyd y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2014-15 gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn cynnwys nifer o addasiadau, a leihaodd y bwlch cyllidebol i £15.5 miliwn ar gyfer 2014-15. Mae'r cynllun yn nodi'r strategaeth newid sefydliadol i gyflawni'r targedau effeithlonrwydd ac arbedion dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yr adolygiad strwythurol mawr yn cynnwys y canlynol: effeithlonrwydd corfforaethol; effeithlonrwydd gweithredol; cynllunio sefydliadol – strwythur a modelau gweithredu; cynllunio sefydliadol – gweithlu.

Mae'r newid sy'n wynebu'r Cyngor er mwyn sicrhau'r arbedion ariannol yn un sylweddol er ein bod yn deall bod y Cyngor wedi gwneud cryn gynnydd o ran nodi sut y caiff y bwlch ariannol yn 2014-15 ei lenwi. Serch hynny, mae angen gwneud cryn dipyn o waith o hyd er mwyn pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 ac ateb yr heriau ariannol ar gyfer 2015-16 ac ar ôl hynny.

Mae'r Cyngor yn agos at gwblhau ei gytundeb statws sengl, sy'n nodi y bydd 84.5 y cant o'i staff yn cael yr un cyflog sylfaenol neu'n cael cyflog sylfaenol uwch. Mae'r cytundeb arfaethedig hefyd yn ceisio darparu ateb modern a chadarnhaol ar gyfer cyflogi isel. Mae'r Cyngor yn hyderus ei fod yn sicrhau cydbwysedd o ran derbynioldeb a fforddiadwyedd a bod y goblygiadau ariannol wedi'u hymgorffori yn ei waith cynllunio ariannol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**John Herniman**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir y Fflint

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk.

Ailstrwythurodd y Cyngor y 10 blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer 2012-13 yn wyth blaenoriaeth thematig, yn seiliedig ar feysydd lle roedd y Cyngor yn disgwyl cael effaith gadarnhaol yn ystod 2013-14. Dengys y tabl isod y blaenoriaethau ailstrwythuredig.

| Blaenoriaethau Gwella 2012-13 | Blaenoriaethau Gwella 2013-14 |
|---|---|
| Bod yn sefydliad cyhoeddus modern, effeithlon a chost effeithiol drwy ein pedair strategaeth adnoddau - y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Pobl, y Strategaeth Rheoli Asedau a'r Strategaeth TGCh - gan sicrhau ar yr un pryd fod ein trethi a'n ffioedd a'n taliadau lleol yn deg ac yn fforddiadwy | **Cyngor modern ac effeithlon**<br>• Gwella gwasanaethau cwsmeriaid<br>• Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen drwy wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau<br>• Sicrhau bod yr adeiladau cywir yn y lleoedd cywir at y defnydd cywir<br>• Gwneud y gorau o'n harian drwy brosesau caffael call<br>• Sicrhau strwythur cyflogau a graddau teg a fforddiadwy<br>• Rheoli gwasanaethau yn dda er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau |
| Sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd gorau posibl drwy gydweithredu'n rhanbarthol ac yn isranbarthol i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol | |
| Bod yn gyflogwr modern, gofalgar a hyblyg gyda chyflogau a thelerau ac amodau cyflogaeth teg a chyfartal o dan Gytundeb Statws Sengl | |
| Cyflawni'r safonau uchaf o ran gwasanaeth a gofal i gwsmeriaid drwy ein Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid | |
| Gwneud ein cymunedau'n ddiogel a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, gan roi blaenoriaeth i Grwpiau plant a phobl hŷn | **Cymunedau diogel**<br>• Gwella diogelwch ar y ffyrdd<br>• Cadw pobl a chymunedau yn ddiogel |

| Blaenoriaethau Gwella 2012-13 | Blaenoriaethau Gwella 2013-14 |
|---|---|
| Amddiffyn a datblygu'r economi leol a rhanbarthol, bod yn Sir ffyniannus a darparu cymorth a chefnogaeth i'r rheini sy'n agored i dlodi | **Tlodi**<br>• Diogelu pobl rhag tlodi<br>**Economi a menter**<br>• Sicrhau bod cymunedau lleol yn hyfyw<br>• Creu swyddi a datblygu'r economi leol<br>• Cefnogi a chreu mathau newydd o fusnes lleol |
| Hyrwyddo bywyd annibynnol, iach a boddhaus yn y gymuned gyda gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd cefnogol a phersonol o'r ansawdd uchaf | **Byw yn dda**<br>• Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac yn dda gartref<br>• Gwella ansawdd bywyd pobl |
| Bodloni'r angen am dai yn y Sir a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o wasanaethau tai a chartrefi fforddiadwy a chartrefi o ansawdd yn y marchnadoedd tai cymdeithasol, deiliadaeth gymysg a sector preifat | **Tai**<br>• Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac yn dda gartref<br>• Gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid dwy ddarparu tai gwell<br>• Gwella'r dewis o dai lleol a'u hansawdd |
| Sicrhau amrywiaeth fodern, uchel ei pherfformiad o gyfleoedd dysgu, diwylliannol, chwarae a hamdden i bobl o bob oedran gyda'n hysgolion, ein colegau a phartneriaid eraill | **Sgiliau a dysgu**<br>• Gwella safonau mewn ysgolion er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr<br>• Gwella mannau dysgu er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr<br>• Diwallu anghenion cyflogwyr lleol o ran sgiliau a chyflogaeth |
| Gwarchod, cynllunio a datblygu amgylcheddau adeiledig a naturiol cynaliadwy | **Yr amgylchedd**<br>• Sicrhau bod cyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau ar gael i bobl<br>• Lleihau ein heffaith garbon ar yr amgylchedd naturiol |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13. Mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk.

# Atodiad 5
# Cynigion neu argymhellion blaenorol ar gyfer gwella a wnaed i’r Cyngor

Yn ystod ein gwaith ers 2010, rydym wedi gwneud cynigion neu argymhellion ar gyfer gwella. Mae’r Cyngor wedi ymdrin yn foddhaol â’r rhan fwyaf o’r rhain, neu wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o’r rhain. Nodir isod statws argymhellion neu gynigion cynharach ar gyfer gwella, na nodwyd eu bod yn gyflawn yn flaenorol. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu’r cynigion neu’r argymhellion ar gyfer sy’n weddill o dan ein rhaglen waith yn y dyfodol.

| Llythyr diweddaru'r asesiad corfforaethol 2011 | Statws Cyfredol |
|---|---|
| C3: Gwella'r dull corfforaethol o ymgysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys trefniadau i wella cyfraniad aelodau etholedig. | Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y cynnig hwn, erys yn faes ar gyfer gwella; mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. |

| Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | Statws Cyfredol |
|---|---|
| A2: Mae angen i'r Cyngor gwblhau ei waith ar feintioli manteision ariannol ei raglen o arbedion effeithlonrwydd a newid sefydliadol erbyn canol 2012-13, er mwyn pennu'r bwlch ariannu sy'n weddill (diffyg neu warged) ac yna bennu cynlluniau clir i nodi arbedion pellach a/neu ailgyfeirio adnoddau at flaenoriaethau. | Cwblhaodd y Cyngor y gwaith yr oedd angen ei wneud; mae'r argymhelliad penodol hwn bellach wedi'i gau. Fodd bynnag, bydd cynghorau yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos. Mae'r angen am drefniadau cadarn i ddatblygu cyllideb fantoledig ac wedyn ei chyflawni a chyflawni targedau arbed costau yn golygu bod hwn yn dal i fod yn fater byw â blaenoriaeth uchel. |
| C1: Cwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo i bennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer pob amcan gwella a sicrhau y cyflwynir adroddiadau clir a rheolaidd. | Gwellodd y Cyngor eglurder rhai o'r mesurau llwyddiant yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14. At hynny, gwellodd eglurder ei brosesau adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun hwnnw. Fodd bynnag, mae lle o hyd i'r Cyngor wneud mwy o ddefnydd o fesurau llwyddiant meintiol yn ogystal â rhai ansoddol, er mwyn helpu i sicrhau bod cynnydd a llwyddiant yn cael eu gwerthuso a'u cofnodi mewn ffordd fwy gwrthrychol. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. |
| C2: Datblygu a chytuno ar gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad i gwsmeriaid gan ddangos sut y cyflawnir mesurau llwyddiant a sut y cynigir gwerth am arian. | Datblygodd y Cyngor gynllun busnes manwl ar gyfer gwella mynediad i gwsmeriaid a chytunodd arno. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella bellach wedi'i gau. Serch hynny, dylai'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer dangos yr arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o'i fuddsoddiad mewn gwella mynediad i gwsmeriaid yn gadarn. |

| Llythyr 2:  Chwefror 2013 | Statws Cyfredol |
|---|---|
| C1: Yng nghyd-destun ei waith cynllunio corfforaethol tymor canolig, dylai'r Cyngor ddiffinio set o Amcanion Gwella blynyddol sy'n adlewyrchu ei uchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn ac yn eu cyfleu mewn ffordd sy'n galluogi'r cyhoedd i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad. | Ymatebodd y Cyngor i'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14. Roedd y Cynllun yn cynnwys cyfres ailstrwythuredig o Flaenoriaethau Gwella a oedd yn diffinio'r effaith fwriadedig ar gyfer y flwyddyn yn gliriach, mewn fformat a oedd yn haws ei ddarllen.  Fodd bynnag, mae lle o hyd i'r Cyngor wneud defnydd helaethach o fesurau llwyddiant meintiol yn ogystal â rhai ansoddol a fydd yn helpu'r cyhoedd i ddwyn y Cyngor i gyfrif am ei berfformiad. Mae'r cynnig ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. |
| P2 : Sicrhau bod y Cynllun Gwella sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy'n deillio o adolygiadau yn ystod y flwyddyn a bod unrhyw Gynllun diwygiedig yn cynnwys cofnod o unrhyw newidiadau o'r fath. | Nid oedd angen i'r Cyngor ddiwygio ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14 yn ystod y flwyddyn (ond cyhoeddodd ei fesurau llwyddiant tan ganol y flwyddyn. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella bellach wedi'i gau. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw newidiadau i  Gynlluniau Gwella dilynol yn glir ac wedi'u dogfennu'n dda. |
| C3: Cynyddu'r defnydd o ddata perthnasol er mwyn cefnogi gwerthusiad y Cyngor o ganlyniadau mewn perthynas â'i Amcanion Gwella | Mae'r Cyngor wedi cynyddu'r defnydd o ddata er mwyn ei helpu i werthuso canlyniadau.  Fodd bynnag, mae cryn dipyn o le o hyd i wella dull gwerthuso'r Cyngor, drwy gynnwys y defnydd o ddata sydd ar gael yn hawdd. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn dal i fod yn agored. |
| C4: Gwella cydbwysedd y naratif sy'n cefnogi pob asesiad, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o waith arbennig o lwyddiannus a gwaith nad oedd cystal. | Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012-13 yn rhoi naratif mwy cytbwys; mae'r Adroddiad yn gwerthuso'r hyn a aeth yn dda a'r hyn nad oedd cystal, ar gyfer pob is-flaenoriaeth. Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella bellach wedi'i gau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk